



TAFLEN GWYBODAETH I YMGEISWYR

TEITL SWYDD – RHEOLWR/WRAIG DATBLYGU BUSNES

CYFLOG:	£26,184 y flwyddyn pro-rata i weithio 37.5 awr yr wythnos. Telir cyflogau ar y trydydd ddydd lau yn y mis.
LWFANS CAR:	Bydd staff yn derbyn lwfans costau teithio o 40c y filltir am y 10,000 milltir gyntaf (25 c y filltir wedyn) am unrhyw gostau teithio yn sgil trafelilio yn y gwaith. Telir lwfans costau teithio yn fisol (ar ôl cyflwyno ffurflen gais am dreuliau).
CYTUNDEB:	2 flynedd gyda phosibilrwydd o estyniad
LLEOLIAD GWAITH:	Caernarfon a Waunfawr
CYFNOD PRAWF:	6 mis
CYFNOD RHYBUDD:	1 mis
TELERAU AC AMODAU:	37.5 awr yr wythnos Llun i Sul, cytundeb oriau blynyddol
GWYLIAU BLYNYDDOL:	29 diwrnod y flwyddyn pro rata sydd yn cynnwys diwrnodau gŵyl banc (bydd y cyfan yn pro-rata). Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor ar 1af Ebrill caniateir 5 diwrnod y flwyddyn pro-rata yn ychwanegol.
CYNLLUN PENSIWN:	Cynllun Pensiwn gyda 'Standard Life'. Manylion pellach ar gael gan Adran Adnoddau Dynol.

**ABSENOLDEBAU
EITHRIADOL:**

- Priodi – 3 diwrnod.
- Symud Tŷ – 2 ddiwrnod.
- Apwyntiad deintydd/ysbyty, ante-natal ayb. Caniateir amser ar gyfer hyn yn ystod oriau gwaith.

PROFEDIGAETH:

- Teulu'r aelwyd – un wythnos.
- Perthynas agos arall – 3 diwrnod.
- Wythnos ychwanegol os yw trefniadau cynhebrwng yn disgyn arnoch.

NAWDD SALWCH:

Mae Antur Waunfawr yn darparu nawdd salwch o 6 wythnos o dâl llawn, a chwe wythnos hanner tâl.

MAE'R SWYDD YMA WEDI CAEL EI HEITHRIO O'R DDEDDF AILSEFYDLU TROSEDDWYR 1974 AC FEL RHAN O'R DREFN RECRIWTIO STAFF BYDD GOFYN I'R YMGEISYDD LLWYDDIANNUS GAEL EU GWIRIO GAN Y SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL

OHERWYDD EITHRIO'R ANTUR O EFFEITHIAU'R DDEDDF ADFERIAD TROSEDDWYR 1974, BYDD YN OFYNNOL I'R YMGEISYDD LLWYDDIANNUS DDATGELU POB TROSEDD MAE EF NEU HI WEDI CAEL EI HUN YN EUOG OHONYNT HYD YN OED OS YW'R RHEINY YN RHAI A FUASAI WEDI DARFOD YN UNOL Â'R DDEDDF AC NA FUASAI FEL ARFER YN GORFOD CAEL EU DATGELU. OS BYDD I'R YMGEISYDD LLWYDDIANNUS FETHU A DATGELU TROSEDD A BOD ANTUR WAUNFAWR YN DARGANFOD BOD TROSEDD WEDI EI CHOFNODI YN EI ERBYN EF NEU HI, BYDD Y CYTUNDEB CYFLOGAETH YN CAEL EI DERFYNU YN SYTH A HEB UNRHYW BENDERFYNIAD PELLACH.